IS-DDEDDFWRIAETH

# LlC22-13

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2022

*Gwnaed* *18 Mawrth 2022*

*Yn dod i rym yn unol â pharagraff 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2022.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 18 Mawrth 2022.

(3) Daw paragraffau 5 a 6 i rym ar 1 Ebrill 2022.

(4) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre(**2**).

### Diwygiadau i Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017

**2.** Mae Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/912 (Cy. 223) ac O.S. 2018/887 (Cy. 176); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

(**3**) Fe'u diwygiwyd gan Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2018, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2019, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2020, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed

**Diwygio paragraff 2 (dehongli)**

**3.** Ym mharagraff 2 (dehongli) yn y lle priodol mewnosoder—

ystyr "Taliad Tanwydd Gaeaf" ("*Winter Fuel Payment*") yw'r taliad y caniateir iddo gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol ym mhob blwyddyn ariannol o dan baragraff 4 o Atodlen 1, paragraff 4 o Atodlen 2, paragraff 3 o Atodlen 3 neu baragraff 4B o Atodlen 4."

**Taliadau Profedigaeth Blynyddol**

**4.** Ym mharagraff 5 (priodau a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth)—

(a) ar ôl is-baragraff (2)(a) hepgorer "a";

(b) ar ôl is-baragraff (2)(b) yn lle "," rhodder

"; ac

(c) taliad blynyddol sy'n gyfwerth â Thaliad Tanwydd Gaeaf y Person Cymhwysol hwnnw ym mhob blwyddyn sy'n dilyn blwyddyn y farwolaeth,".

**Diwygiadau i daliadau blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022 - 2023**

**5.**—(1) Ym mharagraff 1 o Atodlen 1 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "£18,912" rhodder "£19,498";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "£28,680" rhodder "£29,569".

(2) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II), yn lle "£28,680" rhodder "£29,569".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 3 (Personau Cymhwysol sydd â HIV), yn lle "£28,680" rhodder "£29,569".

(4) Yn Atodlen 4 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV)—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "£38,928" rhodder "£40,135";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "£45,072" rhodder "£46,469";

(b) ym mharagraff 2, yn lle "£45,072" rhodder "£46,469".

---

Heintiedig Cymru (Diwygio) 2021 a Chyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) (Rhif 2) 2021.


**Diwygiadau i daliadau tanwydd gaeaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022 - 2023**

**6.**—(1) Ym mharagraff 4 o Atodlen 1 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I), yn lle "£544" rhodder "£561".

(2) Ym mharagraff 4 o Atodlen 2 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II), yn lle "£544" rhodder "£561".

(3) Ym mharagraff 3 o Atodlen 3 (Personau Cymhwysol sydd â HIV), yn lle "£544" rhodder "£561".

(4) Ym mharagraff 4B o Atodlen 4 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV), yn lle "£544" rhodder "£561".



*Yr Athro Chris Jones*
Y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad 18 Mawrth 2022